Hysbysiad i gyrff dyfarnu ar gyfer adrodd data ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol, 2021/22

17 Rhagfyr 2021

Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i Gymwysterau Cymru
O dan Amod B4 o'r Amodau Cydnabod Safonol[1], gallwn gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i gorff dyfarnu cydnabyddedig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth a geisiwn at ddiben cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad.

Diben casglu'r data hwn
Fel rheoleiddiwr y cymwysterau a gynigir i ddysgwyr yng Nghymru, er mwyn arfer ein swyddogaethau swyddogol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015[2], gofynnwn am ddata dysgwyr gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig fel y nodir yn yr Hysbysiad hwn. Gall y data hyn nodi unigolion.

Mae ein dibenion ar gyfer gofyn am y data hyn yn unol â'n rôl a'n swyddogaethau fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015 ac, yn benodol, at ddibenion y cais hwn, sef i:

- gyflawni ein swyddogaethau monitro ac archwilio;
- cyhoeddi ystadegau am y system gymwysterau yng Nghymru;
- cynnal ymchwil sy'n seiliedig ar y cymwysterau a'r system gymwysterau; ac i
- ymchwilio i faterion a adroddwyd i Cymwysterau Cymru.

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ein-dogfennau-rheoleiddiol/amodau/
[2] **https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh**

Diben hyn yw cefnogi ein Prif Nodau, fel yr amlinellir yn y Ddeddf, sef:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac yn
- Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Ni chyhoeddir unrhyw ddata sy'n nodi dysgwyr unigol. Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau am unigolion yn seiliedig ar y data. Mae mesurau diogelu sefydliadol a thechnolegol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data.

Bydd y data'n cael ei gadw am 15 mlynedd er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau. Ar ôl y pwynt hwn, bydd fel arfer yn cael ei ddinistrio. Fel ceidwad cofnodion cyhoeddus, mewn rhai achosion, lle mae setiau data'n cael eu gwerthuso fel rhai sydd o ddiddordeb hanesyddol, gellir eu cadw a'u trosglwyddo i'r Archifau Cenedlaethol ar ôl 20 mlynedd.

Efallai y byddwn yn rhannu data gyda thrydydd partïon i wneud gwaith ymchwil a dadansoddi ar ein rhan. Mae'n ofynnol i bob trydydd parti yr ydym yn rhannu data personol â nhw i brosesu ar ein rhan, o dan gontract i gadw at Ddeddf Diogelu Data 2018.

Rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau[3] wrth gynhyrchu ystadegau.

Gellir cyhoeddi'r data hwn ar ffurf agregau mewn allbynnau ystadegol sydd at ddefnydd y cyhoedd. Gellir defnyddio data a gasglwn hefyd at ddibenion mewnol gan gynnwys dibenion monitro, penderfyniadau polisi, ymchwil a chyngor. Gellir cyhoeddi data cyfunol o'r casgliadau hyn, er enghraifft, mewn adroddiadau ymchwil, cyfathrebu â rhanddeiliaid a'n hadroddiad blynyddol. Bydd ein hallbynnau ystadegol yn cael eu cynhyrchu yn unol â'n Polisi Allbynnau Ystadegol[4]. Efallai y gofynnir i ni hefyd roi gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru, ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'n swyddogaethau, fel y nodir yn y cais. Gall ceisiadau o'r fath gynnwys data o'r casgliad presennol.

Er mwyn bodloni'r dibenion hyn, mae'n hanfodol bod y wybodaeth a roddwch i ni yn gywir, o ansawdd uchel ac yn amserol.

Mae ein Polisi Preifatrwydd[5] a'n Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer casglu data dysgwyr[6] i'w gweld ar ein gwefan.

[3] **https://code.statisticsauthority.gov.uk/**
[4] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-allbynnau-ystadegol/
[5] https://qualificationswales.org/cymraeg/polisi-preifatrwydd/
[6] https://qualificationswales.org/cymraeg/polisi-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd---data-dysgwyr/

Cwmpas y casgliadau data ar gyfer yr hysbysiad hwn

Mae arnom angen data gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig mewn perthynas â chymwysterau a ddyfarnwyd ganddynt o 2021-22 lle caiff y Dysgwyr eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd pob casgliad yn cael ei dargedu at fathau penodol o gymwysterau, mathau penodol o ddata a chyfresi arholiadau penodol. Nodir gofynion pob un o'r casgliadau hyn ar ein Hamserlen Gofnodi ar Gymwysterau 2021/22 isod.

Rydym yn casglu data mewn perthynas â'r mathau canlynol o gymwysterau.

- TGAU, TGAU llinol, TGAU cwrs llawn, TGAU cwrs byr
- TAG, Safon UG a Safon Uwch
- Prif ddysgu a chymwysterau Prosiect
- Tstysgrifau Her Sgiliau
- Cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill:

Rydym yn casglu data mewn perthynas â'r canlynol:

- Apeliadau
- E-Asesu
- Cofrestiadau yn ôl Grŵp Blwyddyn
- Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau
- Canlyniadau lefel dysgwyr
- Camymddygiad – Canolfannau ac Ymgeiswyr
- Newidiadau i farciau neu raddau y tu allan i ROMMA
- Papurau wedi'u haddasu
- Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau
- Canlyniadau cymwysterau nas cymeradwywyd (Cyfnewid Data)
- Marcio ar-lein a thraddodiadol
- Canlyniadau a ragwelwyd a gwir ganlyniadau (Cyfnewid Data. Yn berthnasol i CBAC yn unig)
- Ardystio a chofrestru chwarterol
- Adolygiad o Farcio a Chymedroli
- Adolygiad o Farcio a Chymedroli – Dau newid mewn gradd neu fwy
- Ystyriaeth arbennig
- Codau Manyleb

At ddibenion yr hysbysiad hwn yn 2021/22, mae angen y data hwn arnom mewn perthynas â'r cymwysterau hyn mewn perthynas â'r gyfres arholiadau ganlynol. Sylwer na fydd yr holl gasgliadau uchod yn berthnasol i bob cyfres isod. Yn ogystal, er y byddwn yn casglu data ar gyfer cyfres mis Tachwedd 2021 ar gyfer cymwysterau cyffredinol, ni fyddwn yn casglu data sy'n ymwneud â chyfres arholiadau cymwysterau cyffredinol ychwanegol hydref 2021.

- Tachwedd 2021
- Ionawr 2022
- Mehefin 2022

- Tachwedd 2022
- 2021 C4
- 2022 C1
- 2022 C2
- 2022 C3

Rhaid cyflwyno data gan ddefnyddio'r templedi canlynol:

- Apeliadau
- Templedi Cyfnewid Data
- DR1
- DR2
- E-Asesu
- Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn
- Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau
- Canlyniadau lefel dysgwr
- Newid marciau neu raddau y tu allan i ROMMA
- Camymddwyn
- Papurau wedi'u haddasu
- Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau
- Marcio Ar-lein a Thraddodiadol
- Ystyriaeth arbennig
- Codau Manyleb (i'w cyflwyno trwy SharePoint nid QiW)
- Chwarterol Galwedigaethol

Gellir gweld manylion y templedi hyn a'r arweiniad ar eu defnyddio ar ein gwefan[7].

Rhaid cyflwyno data yn unol â'r amseroedd a nodir yn ein hamserlen Gofnodi ar Gymwysterau isod.

[7] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cymwysterau-cymru-cyflwyniadau-data/

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2021/22

DS Mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol.

Dyddiad(au) adrodd	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
29-Hyd-21	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn*	Tachwedd 2021	27/10/2021	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn*	Tystysgrifau TGAU a Lefel 1 / Lefel 2
Tach 21 i Ion 22	Canlyniadau a ragwelir a gwir ganlyniadau - **Cyfnewid Data**. Yn berthnasol i CBAC yn unig.	Tachwedd 2021	Tach 21 i Ion 22	Templedi Cyfnewid Data	TGAU
04-Ion-22	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol *	Tachwedd 2021	03/01/2022	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau	TGAU a Phrosiect
06-Ion-22	Dyfarnu data - Derbyn lefel dysgwr *	Tachwedd 2021	30/12/2021	Canlyniadau lefel dysgwr	TGAU a Phrosiect
21-Ion-22	Ardystio a chofrestru chwarterol*	C4 2021	01/10/2021 i 31/12/2021	Chwarter Galwedigaethol	Cymwysterau Galwedigaethol
01-Mawrth-22	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol *	Ionawr 2022	28/02/2022	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau	TGAU, PL, Tystysgrif Her Sgiliau Prosiect a Bagloriaeth Cymru
01-Ebr-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli *	Tachwedd 2021	31/03/2022	DR1	TGAU a Phrosiect
05-Ebr-22	Codau Manyleb	2022	04/04/2022	Codau Manyleb - **a gasglwyd trwy Sharepoint**	TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
21-Ebr-22	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn*	Mehefin 2022	20/04/2022	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn	TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Dyddiad(au) adrodd	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
22-Ebr-22	Ardystio a chofrestru chwarterol*	C1 2022	01/01/2022 i 31/03/2022	Chwarterol Galwedigaethol	Cymwysterau Galwedigaethol
07-Meh-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli - Terfynol *	Ionawr 2022	06/06/2021	DR1	TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
22-Gorff-21	Ardystio a chofrestru chwarterol*	C2 2022	01/04/2022 i 30/06/2022	Chwarterol Galwedigaethol	Cymwysterau Galwedigaethol
27-Gorff-22	Apeliadau - Terfynol *	Tach-21	26/07/2022	Apeliadau	TGAU a Phrosiect
Gorff 22 i Awst 22	Canlyniadau a ragwelir a gwir ganlyniadau - **Cyfnewid Data**. Yn berthnasol i CBAC yn unig.	Mehefin 2022	Gorffennaf 22 i Awst 22	Templedi Cyfnewid Data	TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Gorff 22 i Awst 22	Canlyniadau cymhwyster heb eu cymeradwyo - **Cyfnewid Data**	Mehefin 2022	Gorffennaf 22 i Awst 22	Canlyniadau cymhwyster heb eu cymeradwyo - Cyfnewid Data	TGAU, UG a Safon Uwch
11-Awst-22	Dyfarnu data - Derbyn lefel dysgwr *	Mehefin 2022	04/08/2022	Canlyniadau lefel dysgwr	UG, Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch
12-Awst-22	Papurau wedi'u haddasu *	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	11/08/2022	Papurau wedi'u haddasu	TGAU, UG a Safon Uwch
18-Awst-22	Dyfarnu data - Derbyn lefel dysgwr *	Mehefin 2022	11/08/2022	Canlyniadau lefel dysgwr	TGAU, a Thystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol / Sylfaen
06-Medi-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli - Dros Dro *	Mehefin 2022	05/09/2022	DR1	TGAU, AS, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Dyddiad(au) adrodd	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
08-Medi-22	Apeliadau - Dros Dro	Mehefin 2022	07/09/2022	Apeliadau	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
27-Medi-22	Apeliadau - Terfynol *	Ionawr 2022	26/09/2022	Apeliadau	TGAU, Prosiect a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
04-Hyd-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli *	Mehefin 2022	03/10/2022	DR1	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
06-Hyd-22	Marcio Ar-lein a Thraddodiadol *	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	05/10/2022	Marcio Ar-lein a Thraddodiadol	TGAU, AS a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
06-Hyd-22	E-Asesu	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	05/10/2022	E-Asesu	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
06-Hyd-22	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol *	Mehefin 2022	05/10/2022	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol	TGAU, AS a Safon Uwch, Prosiect a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
06-Hyd-22	Apeliadau - Dros Dro	Mehefin 2022	05/10/2022	Apeliadau	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
10-Hyd-22	Ystyriaeth Arbennig*	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	09/10/2022	Ystyriaeth Arbennig	TGAU, UG a Safon Uwch
13-Hyd-22	Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau *	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 02022	12/10/2022	Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau	TGAU, UG a Safon Uwch

Dyddiad(au) adrodd	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
21-Hyd-22	Ardystio a chofrestru chwarterol*	C3 2022	01/07/2022 i 30/09/2022	Chwarterol Galwedigaethol	Cymwysterau Galwedigaethol
28-Hyd-22	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn*	Tachwedd 2022	26/10/2022	Cofrestriadau fesul Grŵp Blwyddyn	TGAU
03-Tach-22	Apeliadau - Dros Dro	Mehefin 2022	02/11/2022	Apeliadau	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
15-Tach-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli - Terfynol *	Mehefin 2022	14/11/2022	DR1	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
15-Tach-22	Adolygiad o Farcio a Chymedroli - Newid o ddwy radd neu fwy*	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	14/11/2022	DR2	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
17-Tach-22	Camymddwyn - Canolfannau ac Ymgeiswyr *	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	16/11/2022	Camymddwyn	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
24-Tach-22	Apeliadau - Terfynol*	Mehefin 2022	23/11/2022	Apeliadau	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
18-Ion-22	Newidiadau i farciau neu raddau y tu allan i Adolygiadau o waith Marcio a Chymedroli ac Apeliadau.	Tachwedd 2021, Ionawr 2022 a Mehefin 2022	17/01/2023	Newidiadau i farciau neu raddau y tu allan i ROMMA	TGAU, AS, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Canllawiau ar gyfer cyflwyno
Dylid cyflwyno data ar gyfer y casgliad hwn i ni yn unol â'r llinellau amser a nodir yn ein Hamserlen Gofnodi uchod. Er enghraifft, rhaid cyflwyno data terfynol ar Apeliadau ar gyfer cyfres Tachwedd 2021 ar gyfer TGAU a Phrosiect erbyn 27 Gorffennaf 2022, a'r dyddiad cau ar gyfer data yw 26 Gorffennaf 2022.

Rhaid cyflwyno data gan ddefnyddio'r templedi perthnasol yr ydym wedi'u rhestru yn yr Amserlen Adrodd. Gellir gweld canllawiau ar ddefnyddio'r templedi hyn ar ein gwefan[8].

Cysylltiadau
Ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â'r broses casglu data, diwygiadau i ddata a ddarparwyd yn flaenorol, neu i gael arweiniad cyffredinol, cysylltwch â'n Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau. Rydym yn croesawu adborth ar y baich o ddarparu'r data hwn, i ddarparu adborth, cysylltwch â'n Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau:

Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
01633 373 222

E-bost: **ystadegau@cymwysteraucymru.org**

Ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â'n llywodraethu data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Diogelu Data CC Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
01633 373 222

E-bost: **dpo@cymwysteraucymru.org**

[8] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cymwysterau-cymru-cyflwyniadau-data/